SHERMAN THEATR • THEATRE

HYDREF/GAEAF 2024

# CYLCHLYTHYR AELODAU

**Yn y cylchlythyr hwn ar gyfer rhifyn yr hydref/gaeaf, edrychwn yn ôl at gynhyrchiad fwyaf diweddar Crëwyd yn y Sherman, ODYSSEY ‘84, yn ogystal ag edrych ymlaen at yr hyn sydd ar y gweill dros y chwe mis nesaf. Byddwn hefyd yn rhoi cipolwg sydyn i chi ar waith mewnol Theatr y Sherman gyda lluniau cefn llwyfan unigryw o set ODYSSEY ‘84 yn cael ei adeiladu a chyfweliad gydag aelod o’n tîm.**

## ODYSSEY ’84

Roedd drama newydd Tim Price yn ail-gyflwyniad epig a phwerus o Streic y Glowyr 1984, gan gymryd ysbrydoliaeth o *The Odyssey*, cerdd epig y bardd Groegaidd, Homer. Yn union fel y treuliodd Odysseus 20 mlynedd yn teithio adref ar ôl Rhyfel Caerdroea tra bod Penelope, ei wraig, gartref, gwelwn John O’Donnell, sef glöwr a drodd yn godwr arian i’r NUM, yn cwblhau antur epig ag aeth ag ef ar draws y byd tra roedd ei wraig Penny gartref yn cefnogi teuluoedd eraill, gan ddod i ddeall gwerth cymuned a chwblhau ei thaith o ddeffroad gwleidyddol ei hun.

Cyfarwyddodd Cyfarwyddwr Artistig Theatr y Sherman, Joe Murphy, gynhyrchiad angerddol a thwymgalon, ac ar brydiau yn emosiynol ond gyda golygfeydd digri i ysgafnhau’r cynhyrchiad hefyd. Roedd y cynhyrchiad yn brofiad theatrig ryfeddol gan nodi 40 mlynedd ers un o’r penodau mwyaf cythryblus yn hanes diweddar Gymru. Yn cynnwys cerddoriaeth o’r 80au a set ddramatig, y gallwch weld eu hadeiladwaith yn y llinell amser isod, taflodd y cynhyrchiad olau ar rôl menywod yn yr anghytundeb gyda Llywodraeth Prydain, yn ogystal â’r gefnogaeth ryngwladol a gafodd y glowyr.


Rydym yn falch iawn i rannu cyfres o luniau cefn llwyfan nas gwelwyd o’r blaen, sy’n dangos holl waith adeiladu set ***Odyssey ‘84.***








*Odyssey ’84*. Lluniau Mark Douet



*Odyssey '84* cefn llwyfan. Lluniau Mandy Ivory-Castile

# GWAITH TU HWNT I'R LLWYFAN

Mae pob cynhyrchiad Crëwyd yn y Sherman yn gyfle i ehangu mynediad a hyrwyddo cyfranogiad, i weithio gydag ysgolion a chymunedau, ac i gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu i artistiaid a chrewyr theatr newydd. Mae'r gweithgareddau ychwanegol i gefnogi ***Odyssey '84*** a wnaed ar draws y cwmni yn dangos enghreifftiau o'r gwaith tîm sydd eu hangen i greu theatr.



# YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL

Ar y 26ain o Fehefin, cynhaliwyd darlleniad o sgript mewn llaw o ***Odyssey '84*** yn Big Pit, Amgueddfa Lofaol Cymru, i gynulleidfa gwadd o 50 o gyn-lowyr a'u teuluoedd, gan gynnwys cyfranogwyr sydd wedi bod yn gweithio gyda'n tîm Ymgysylltu Creadigol yn ystod y cyfnod ymchwil. Cynhaliwyd ail ddarlleniad yn y Sherman ar y 27ain o Fehefin fel rhan o'n menter *Paned a Stori*. Roedd y ddau yn berfformiadau estynedig (2 awr 30 munud), gyda chast o naw actor.

Trwy *Baned a Stori* rydym yn darparu perfformiad yn ystod y dydd i aelodau'r gynulleidfa y mae'n well ganddynt beidio â mentro allan i'r theatr gyda'r nos. Nod y prosiect yw hybu lles trwy'r cyfle i weld darn o lenyddiaeth newydd sbon, rhannu syniadau ac adborth, sgwrsio a chwrdd ag eraill mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol. Mae pob perfformiad yn cynnwys darlleniad wedi'i ymarfer naill ai yn Stiwdio'r Sherman neu yn y Brif Theatr, sesiwn holi ac ateb ar ôl y sioe gyda'r dramodydd, y cyfarwyddwr a'r cast, ac yna paned, cacen a chyfle i gymdeithasu.

Mae oedran y gynulleidfa yn amrywio o 50 i 80+. Cynhelir perfformiadau bob chwarter yn Theatr y Sherman a, lle bo modd, mewn lleoliadau yn y gymuned. Mae gan bob perfformiad ddehongliad BSL ac maent yn berfformiadau hamddenol ac yn addas i bobl â dementia.



*Paned a Stori.* Lluniau Chris Lloyd

# YMGYSYLLTIAD YSGOLION

Cafodd ysgolion a cholegau'r cynnig i ymgysylltu'n greadigol â'r cynhyrchiad mewn sawl ffordd, gan ddarparu ffordd unigryw i ddysgwyr archwilio hanes cyfoes Cymru a chyfnod hollbwysig mewn gwleidyddiaeth ac economi'r byd. Roedd dewis o dri gweithdy gwahanol ar gael i ddisgyblion blwyddyn 10 a hŷn. Cynhaliwyd y gweithdai yn y theatr, cyn y perfformiadau.

## Dewis 1 – Celf a Phrotest

Roedd y gweithdy hwn yn gysylltiedig â nifer o bynciau'r cwricwlwm gan gynnwys Celf, Drama, Saesneg, Astudio'r Cyfryngau, Hanes a Llywodraeth a Gwleidyddiaeth. Edrychon ar sut mae celf wedi bod yn arf annatod ym mhrotestiadau gwleidyddol dros ganrifoedd, gan roi'r cyfle i ddisgyblion ddysgu am nodweddion, effaith a hanes Celf Brotest, ystyried sut roedd Celf Brotest yn rhan o streic y glowyr, a chreu darn o Gelf Brotest eu hun.

## Dewis 2 – Y Cyfryngau a'r Glowyr

Roedd y gweithdy hwn yn gysylltiedig â nifer o bynciau'r cwricwlwm gan gynnwys Saesneg, Astudio'r Cyfryngau, Hanes a Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, ac yn edrych ar rôl y cyfryngau wrth roi sylw i'r streic ac effaith hyn ar y cyhoedd o ran cydymdeimlo â'r glowyr neu gefnogi'r llywodraeth. Cafodd disgyblion y cyfle i ddysgu am sylw'r cyfryngau yn ystod streic y glowyr a'r rôl a chwaraeodd hyn wrth ddylanwadu ar farn y cyhoedd; ystyried yr effaith y byddai cyfryngau cymdeithasol wedi ei gael ar ddigwyddiadau, pe baent wedi digwydd heddiw, gan edrych ar y streic yng nghyd-destun mudiadau gwleidyddol cyfoes, gan hefyd rhoi'r cyfle iddynt greu eu hadroddiadau newyddion eu hun o ddigwyddiadau allweddol y streic.

## Dewis 3 – Adrodd Stræon Epig

Edrychodd ein gweithdy olaf ar nodweddion allweddol o sut i adrodd straeon Epig a pham ei fod yn ffurf effeithiol ar draws llenyddiaeth, barddoniaeth a drama, gan gysylltu â nifer o bynciau'r cwricwlwm gan gynnwys Saesneg, Drama, y Clasuron a Hanes. Cafodd disgyblion y cyfle i ddarganfod mwy am nodweddion adrodd straeon Epig; ystyried effaith defnyddio dyfeisiau epig i ddyrchafu straeon cyfoes, a hynny drwy gyd-destun ***Odyssey '84***, a chreu darn o stori Epig eu hun.

# DATBLYGU ARTISTIAID

Yn ogystal â'r cast o actorion proffesiynol, roedd ***Odyssey '84*** yn cynnwys cefnogaeth gan aelodau'r Sherman Players, grŵp Theatr y Sherman o berfformwyr nad ydynt yn broffesiynol i bawb 18+ oed. Mae'r Sherman Players yn cwrdd yn wythnosol i ddysgu am greu theatr trwy gynllunio, ysgrifennu sgriptiau ac actio. Bob blwyddyn mae aelodau'n cael cyfle i fod yn rhan o gynhyrchiad llawn gyda chyfarwyddwr proffesiynol a, lle bo'n briodol, yn cael cyfle i ennill profiad fel rhan o'r ensemble ar gyfer cynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman.

**"Ni fyddai'n ddigon i ddweud bod ODYSSEY '84 wedi newid fy mywyd, dyma oedd fy nghatalydd am newid. Rwy'n weddol newydd i'r byd actio ar ôl cychwyn eleni, ac eto, doeddwn i byth yn teimlo allan o le.**

**Ac mae'r diolch am hynny i'r cast talentog, proffesiynol a gweithgar, y cast cymunedol, y criw y tu ôl i'r llen, Tim y dramodydd, a Joe y cyfarwyddwr. Creodd pawb amgylchedd gwaith hygyrch a galluogodd i mi fod yn fi fy hun, ac roedd cyfrannu at ailddweud *Odyssey* yn bleser ac yn anrhydedd llwyr.**

**Mae tân wedi cynnau ynof i barhau i wella, parhau i ysbrydoli fel ces i fy ysbrydoli, sy'n un o nifer o resymau pam ymunais â'r Sherman Players, fel y gallaf fod yn well berson yn ogystal â gwell actor.**

**Fe allwn i fynd ymlaen ac ymlaen, ond i grynhoi, gwnaeth ODYSSEY '84 yr hyn a œdd yn teimlo'n amhosib, yn BOSIB! Dyma brofiad y byddaf yn ei gofio am weddill fy oes."**

**Osian Lloyd**, aelod o Sherman Players a chast cymunedol ***Odyssey '84***

> **“Mae bod yn rhan o gynhyrchiad ODYSSEY ’84 wedi bod yn brofiad bythgofiadwy. Roedd y cast a’r criw yn anhygoel, ac roedd yn fraint cael y cyfle i weithio gyda nhw i gyd. Dyma brofiad sydd nid yn unig wedi herio fy ngallu fel perfformiwr, ond hefyd wedi rhoi i mi gwerthfawrogiad dyfnach o hud a lledrith y theatr. Roedd yn un o uchafbwyntiau fy amser gyda’r Sherman Players, yn bendant!”**
>
> **Mike Morgan**, aelod o Sherman Players a chast cymunedol ***Odyssey ‘84***

Os hoffech ddysgu mwy am y Sherman Players, neu os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â’r grŵp, cysylltwch â’n tîm Ymgysylltu Creadigol **francesca.pickard@shermantheatre.co.uk**

# DATBLYGIAD CYNULLEIDFA

Fe wnaeth gweithio gydag Amgueddfa Big Pit yn ystod datblygiad cynnar y prosiect, ochr yn ochr â chynnal gweithgareddau ymgysylltu â nifer o grwpiau cymunedol lleol, ein helpu i feithrin partneriaethau newydd. Parhaodd y partneriaethau hyn i ddatblygu trwy gydol y cynhyrchiad, gan arwain at nifer o gynulleidfaoedd ar draws Cymoedd De Cymru a Chymoedd Tawe yn mynychu perfformiadau. Llwyddon hefyd i ddenu cynulleidfaoedd newydd i’r Sherman, gyda 35% o gynulleidfa ***Odyssey ’84*** yn ymweld â’r Sherman am y tro cyntaf.

Yng nghyntedd y Sherman sefydlon fan i gasglu bwyd, gan weithio mewn partneriaeth â Banc Bwyd Caerdydd. Bydd hwn nawr yn aros yn ei le fel lle parhaol i’n cynulleidfaoedd gyfrannu wrth ymweld â’r theatr.



Baneri Llyfrgell Glowyr De Cymru

# YMCHWIL A DATBLYGU

Gweithiodd ein tîm Llenyddol â thîm Archifau Prifysgol Abertawe i ddarllen cofnodion pwyllgorau ac edrych ar ffotograffau o archifau NUM De Cymru. Daeth y tîm o hyd i fanylion diddorol, y bu modd iddynt roi adborth i’r dramodydd Tim Price, gan ychwanegu gwead a syniadau i destun y cynhyrchiad. Bu ein rheolwr Ymgysylltu Creadigol mewn cyswllt â Llyfrgell Glowyr De Cymru a roddodd fenthyg i ni’r baneri hardd a ddefnyddion i addurno’r cyntedd yn ystod y cyfnod perfformio yn Theatr y Sherman.






# CWRDD Â'R TÎM

**Enw:** Rachel Mortimer
**Swydd gyda Theatr y Sherman:** Rheolwr Technegol
**Cyfnod gyda Theatr y Sherman:** 21 mlynedd



Rachel Mortimer

## Beth yw dy hoff gynhyrchiad gyda Theatr y Sherman a pham?

***Housemates***, achos cefais y cyfle i wneud y gwaith o gynllunio'r goleuadau ac roedd yn brofiad gwych i weithio ar sioe mor anhygoel. Roedd y stori mor bwysig ac roedd ymateb y gynulleidfa yn anhygoel, roeddwn i yn fy nagrau bob nos. Roedd y sioe yn un mor emosiynol a dyrchafol.

## Pa ddiwrnod oedd yr un mwyaf prysur ers i ti ddechrau gweithio gyda Theatr y Sherman?

Mae cymaint o ddiwrnodau prysur wedi bod, mae'n anodd dewis un! Mwy na thebyg un o'r diwrnodau pan fydd gŵyl ymlaen, fel gŵyl National Theatre Connections pan fydd nifer o grwpiau Theatr Ieuenctid gwahanol yn perfformio eu sioeau un ar ôl y llall trwy gydol y dydd. Fel tîm cynhyrchu, byddwn yn helpu pob grŵp i osod eu set a'u propiau, ffocysu a chynllunio'r goleuadau a sain, ac yna rhedeg drwy bob sioe cyn iddynt berfformio i'r grwpiau eraill. Rydyn ni'n ei dynnu i lawr wedyn ac yn dechrau'r un nesaf. Mae hwn fel arfer yn benwythnos prysur gan fod yr ŵyl yn para tridiau, gyda sawl grŵp, gan gynnwys Theatr Ieuenctid y Sherman, yn perfformio.

## Beth wyt ti'n ei fwynhau fwyaf am dy swydd?

Does dim un diwrnod fel y llall, mae rhywbeth cyffrous yn digwydd bob amser. Mae fy hoff gyfnodau fel arfer yn ystod yr ymarferion technegol ar gyfer ein sioeau Crëwyd yn y Sherman, wrth i'r cyfan ddod at ei gilydd ac rydyn ni'n gallu gweld beth fydd y sioe yn edrych ac yn swnio fel am y tro cyntaf.

## Sut wyt ti'n paratoi ar gyfer diwrnod yn Theatr y Sherman?

Dw i'n cael brecwast bob bore er mwyn cael egni i bara drwy'r bore, a gwneud paned o de i yfed ar y ffordd. Ar ôl cyrraedd, dw i'n cydio yn fy radio ac fel arfer yn mynd yn syth i'r theatr i droi'r goleuadau a'r sain ymlaen ar gyfer pa bynnag sioe sydd ymlaen. Dwi'n dueddol o wneud hyn cyn i bawb arall gyrraedd fel fy mod i'n barod i fynd.

## Sut wyt ti'n ymlacio ar ôl diwrnod o waith?

Os byddaf yn gorffen yn ddigon cynnar, af â'n ci Ziggy am dro yn y parc neu o amgylch y gymdogaeth. Wedyn, dw i fel arfer yn ymlacio o flaen y teledu gyda naill ai sioe gwis fel QI neu ddrama drosedd.

## Beth wyt ti'n edrych ymlaen ato fwyaf yng nghalendr Theatr y Sherman?

***A Christmas Carol***, sydd ar waith gyda ni ar hyn o bryd. Gan mai dyma'r ail dro i ni wneud y sioe mae'r cyfan yn mynd yn rhwydd iawn. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut mae aelodau newydd y cast yn gweddu i'r stori a beth fydd yr un peth, a beth fydd yn wahanol, y tro hwn.






Ymarferion *A Christmas Carol*. Lluniau Mark Douet

# SYLW AR WANWYN 2025 – THE WOMEN OF LLANRUMNEY YN DYCHWELYD

Mae drama gyntaf Azuka Oforka yn dychwelyd am ail rediad o 26 Ebrill i 10 Mai 2025. Yn ddrama hanesyddol ddinistriol, mae ***The Women of Llanrumney*** wedi'i gosod ar blanhigfa siwgr Llanrumney yng nghyfnod trefedigaethol Jamaica yn y 18fed ganrif. Trwy stori Annie a'i merch, Cerys, mae'r ddrama yn archwilio profiadau menywod yn ystod caethwasiaeth.

Comisiynwyd y darn yn wreiddiol gan Theatr y Sherman gan ymddangos am y tro cyntaf mewn cyfres o berfformiadau ym mis Mai 2024. Gwerthodd y sioe bob un tocyn gan dderbyn cymeradwyaeth gan gynulleidfaoedd ac adolygwyr fel ei gilydd.

Os nad ydych chi wedi ei weld yn barod, neu hyd yn oed os ydych chi, gydag Azuka Oforka yn ennill y wobr Awdur Gorau yng Ngwobrau'r Stage Debut 2024 am y ddrama hon, dyma gynhyrchiad gwerth ei weld. Mae tocynnau ar werth nawr drwy Swyddfa Docynnau Theatr y Sherman ar **029 2064 6900** neu **shermantheatre.co.uk**

Cyn dychwelyd i'r Sherman, bydd ***The Women of Llanrumney*** yn symud i Stratford East yn Llundain, rhwng 19 Mawrth a 12 Ebrill 2025.

★★★★★

**"blistering... marks Oforka as an urgent and important voice in Welsh theatre."**
**THE GUARDIAN**

**"A scorching writing debut... marks the arrival of an exhilarating new voice in Oforka."**
**THE STAGE**



Azuka Oforka



*The Women of Llanrumney*. Llun Burning Red

# TYMOR 2025 CRËWYD YN Y SHERMAN

HERE. YMA.
NOW. NAWR.
Made at • Crëwyd yn y
SHERMAN
2025

*22 Tachwedd 2024 – 4 Ionawr 2025*

## A CHRISTMAS CAROL

*Gan* Gary Owen
*Cyfarwyddwyd gan* Joe Murphy

**"Joe Murphy's triumphant Dickens redo... Brims with an irresistible festive charm, and looks absolutely gorgeous."**

★★★★ The Guardian

Dewch gyda ni i strydoedd Caerdydd Fictoraidd y Nadolig hwn, am antur Nadoligaidd tra gwahanol. Mae ein ail-gyflwyniad hudolus, doniol a theimladwy o ***A Christmas Carol***, a welwyd am y tro cyntaf yn 2021, yn dychwelyd y Nadolig hwn yn dilyn galw mawr amdano. Mae ***A Christmas Carol*** yn addo adloniant hyfryd dros yr ŵyl i bawb 7+ oed.

*25 Tachwedd 2024 – 4 Ionawr 2025*

## LITTLE RED RIDING HOOD
## YR HUGAN FACH GOCH

*Gan* Katie Elin-Salt
*Cyfarwyddwyd gan* Alice Eklund

Y cyflwyniad perffaith i theatr ar gyfer plant rhwng 3-6.

*21 Chwefror – 8 Mawrth 2025*

## HOUSEMATES

*Gan* Tim Green
*Cyfarwyddwyd gan* Joe Murphy *a* Ben Pettitt-Wade

(Cyd-gynhyrchiad gyda Hijinx)

Mae Housemates yn ôl yn 2025, yn sgil galw mawr. Fe wnaeth cyflwyniad Tim Green o stori anhygoel a ddigwyddodd ond metrau o ddrysau'r Sherman ryfeddu cynulleidfaoedd ac ennill canmoliaeth frwd gan adolygwyr yn 2023.

*21 Mawrth – 5 Ebrill 2025*

## HOT CHICKS

*Gan* Rebecca Hammond
*Cyfarwyddwyd gan* Hannah Noone

(Cyd-gynhyrchiad gyda Grand Ambition)

**Penlan, Swansea. Now.**

Yn eu harddegau, mae Ruby a Kyla yn treulio'u nosweithiau yn siop gyw iâr Cheney's, yn breuddwydio am symud i Vegas a mynd yn feiral. Ar hap maent yn cwrdd â Sadie, merch hŷn, llawer mwy cŵl, ac yn sydyn mae eu breuddwydion am bartïon pwll nofio a rholio mewn doleri o fewn eu cyrraedd… ond am ba bris?

Drama newydd danbaid, ddoniol a chythryblus gan Rebecca Jade Hammond sy'n dangos theatr Gymreig gyfoes ar ei mwyaf craff.

Fe berfformir ***Hot Chicks*** yn Theatr y Grand Abertawe hefyd rhwng 16 – 25 Ebrill.

*26 Ebrill – 10 Mai 2025*

## THE WOMEN OF LLANRUMNEY

*Gan* Azuka Oforka
*Cyfarwyddwyd gan* Patricia Logue

Mae drama hanesyddol ddinistriol Azuka Oforka yn wynebu gorffennol trefedigaethol Cymru benben. Dyma hi'n dychwelyd yn 2025 yn dilyn ei rhediad cyntaf pum seren ym mis Mai 2024 y gwerthwyd pob tocyn iddo. Caiff ***The Women of Llanrumney*** ei pherfformio yn Theatr y Sherman yn dilyn rhediad yn Stratford East yn Llundain.

*6 – 8 April 2025*

## THE PILOT

*Gan* Jennifer Lunn
*Cyfarwyddwyd gan* Francesca Pickard

Datblygwyd gan garfan bresennol rhaglen Cyflwyniad i Ysgrifennu Dramâu Theatr y Sherman a gefnogir gan Sefydliad Moondance

Perfformir gan Theatr Ieuenctid y Sherman

Cydweithrediad newydd, arloesol ac ysbrydoledig sy'n uno lleisiau dwy o'n rhaglenni datblygu creadigol allweddol (i bobl ifanc rhwng 15-18 oed) gydag un o ddramodwyr blaenllaw Cymru sydd wedi ennill gwobrau, Jennifer Lunn.

*1 – 10 Mai 2025*

## PORT TALBOT GOTTA BANKSY

*Ysgrifennwyd a chyfarwyddwyd gan* Paul Jenkins a Tracy Harris

(Cyd-gynhyrchiad gyda Theatr3)

**Port Talbot. Now.**

Rhagfyr 2018, mae Banksy yn cyflwyno anrheg Nadolig unigryw i Bort Talbot pan mae un o'i furluniau yn ymddangos ar garej gweithiwr dur lleol gan roi sylw rhyngwladol i'r dref. 2024, mae Port Talbot yn y newyddion unwaith eto pan mae diwedd cynhyrchu dur drwy ffwrnais chwyth, diwydiant sydd mor hanfodol i'r dref, yn creu cyfnod newydd o ansicrwydd.

Yn yr wythnosau ar ôl i waith celf Banksy ymddangos aeth Paul Jenkins a Tracy Harris o gwmni Theatr3 i siarad â phobl y dref. Fe gychwynnodd eu prosiect fel casgliad o ymatebion i'r Banksy cyntaf i ymddangos yng Nghymru, a dros chwe blynedd fe ddatblygodd yn bortread o gymuned ac yn deyrnged i'w hysbryd a'i gwytnwch. Nawr, daw lleisiau'r gymuned honno i flaen y llwyfan, gyda chast o actorion proffesiynol yn adrodd eu geiriau.

Mae ***Port Talbot Gotta Banksy*** yn ddrama newydd bwysig am bobl, pŵer a chelfyddyd stryd. Mae'n ddathliad o gryfder cymunedau i wrthsefyll holl heriau bywyd. Ymunwch â ni wrth i bobl Port Talbot rannu eu stori nhw yn eu geiriau eu hunain, yn y ddrama bwerus, deimladwy gair-am-air hon.

Bydd y ddrama yn cael ei pherfformio yn y Plaza, Port Talbot yn dilyn y perfformiadau yn Theatr y Sherman.

*Mai 2025*

## SALEM

*Gan* Lisa Parry

(Cydweithrediad â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar gyfer eu gŵyl NEWYDD)

**Pentre Gwynfryn. Now.**

Drama ddiweddaraf Lisa Parry (*The Merthyr Stigmatist*) fydd degfed cydweithrediad Theatr y Sherman gyda'n partneriaid agos, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, a dyma ein comisiwn yn 2025 ar gyfer gŵyl NEWYDD y coleg.

Dyddiadau penodol i'w gadarnhau yn y flwyddyn newydd.

*24 Tachwedd 2025 – 3 Ionawr 2026*

## THE FROG PRINCE
## BIWTI A BROGS

*Gan* Gwawr Loader
*Cyfarwyddwyd gan* Elin Phillips

(Cyd-gynhyrchiad gyda Theatr Cymru)

**Tre Melys. Amser maith yn ôl.**

Dewch i Stiwdio'r Sherman a chamu i fyd gwbl hudolus gyda fersiwn newydd Gwawr Loader o stori'r Tywysog Broga gan y Brodyr Grimm. Dyma'r cyflwyniad perffaith i hudoliaeth theatr fyw i blant bach 3-6 oed. Perfformir ***The Frog Prince / Biwti a Brogs*** yn Saesneg ac yn Gymraeg, mewn perfformiadau ar wahân. Gall cynulleidfaoedd ledled Cymru brofi'r sioe newydd ryfeddol hon gan y bydd hi'n teithio ledled de Cymru cyn ei chyfnod yn Theatr y Sherman dros y Nadolig, ac yn teithio i ogledd a chanolbarth Cymru yn gynnar yn 2026.

*28 Tachwedd 2025 – 3 Ionawr 2026*

## ALICE: RETURN TO WONDERLAND

*Gan* Hannah McPake

**Caerdydd. 1947.**

Y Nadolig nesaf, bydd Hannah McPake (*Tales of the Brothers Grimm*) yn mynd â chi ar antur newydd sbon o strydoedd llwm Caerdydd wedi'r rhyfel, i Wonderland, a hynny o gysur eich sedd yn ein Prif Theatr. Ymunwch â ni unwaith eto am sioe Nadolig anhygoel, llawen a thrawiadol, dan arweiniad actorion-gerddorion, sy'n addas i bawb dros 7 oed.

**Mwy o gynyrchiadau i'w cyhoeddi yn y flwyddyn newydd.**

# RHAGLEN EHANGACH

*13 Rhagfyr 2024* WEDI GWERTHU ALLAN

**MARK THOMAS: GAFFA TAPES**

*17 Ionawr 2025* WEDI GWERTHU ALLAN

**ANDY ZALTZMAN: THE ZALTGEIST**

*28 Chwefror 2025*

**ROB AUTON: THE EYES OPEN AND SHUT SHOW**

*13 Mawrth 2025*

**RICHARD HERRING: CAN I HAVE MY BALL BACK?**

*14 Mawrth 2025*

**ANGELA BARNES: ANGST**

*15 Mawrth 2025*

**JENNY ECLAIR: JOKES, JOKES, JOKES, LIVE**

*8 Ebrill 2025*

**JOHN SHUTTLEWORTH**

*9 Ebrill 2025*

**LOU SANDERS: NO KISSING IN THE BINGO HALL**

*11 Ebrill 2025*

**JOE KENT-WALTERS IS FRANKIE MONROE: LIVE!**

*12 Ebrill 2025*

**DEIRDRE O'KANE: O'KANING IT**

*17 Mai 2025*

**GAZ OAKLEY: TALES OF THE HOMESTEAD**

I gael rhagor o wybodaeth am raglen gyflawn 2025, ewch i wefan Theatr y Sherman i'r wefan.

*shermantheatre.co.uk*

# ANRHEGION NADOLIG?

## Ydych chi'n dal i chwilio am yr anrheg Nadolig perffaith i rywun arbennig yn eich bywyd sy'n dwlu ar theatr?

Porwch drwy'n siop ar-lein am ddewis o sgriptiau o ddramâu a ddangoswyd am y tro cyntaf gan Theatr y Sherman a llawer mwy. Yn ystod y Nadolig gallwch hefyd brynu Llythyr Siôn Corn arbennig iawn yma.

*shermantheatre.co.uk/siop*

A fyddai derbynnydd eich anrheg yn hoffi trip i'r theatr? Mae Talebau Rhodd Theatr y Sherman ar gael i'w prynu ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

*shermantheatre.co.uk/gift-vouchers/*

Am anrheg sy'n para am flwyddyn gyfan, mae pob dewis o'n haelodaeth flynyddol bellach ar gael i'w prynu fel Aelodaeth Rhodd drwy ein Swyddfa Docynnau ar **02920 646900**.

*shermantheatre.co.uk/cefnogwch-ni/aelodaeth/*

Rhowch anrheg unigryw a pharhaol trwy enwi sedd yn y brif theatr neu gyfrannu at Apêl Stiwdio'r Sherman. Yn ogystal â chael eu henw yn y fan a'r lle am 10 mlynedd, byddwch chi a derbynnydd eich anrheg yn cael gwahoddiad i ymuno â ni ar gyfer taith gefn llwyfan o'r theatr.

*shermantheatre.co.uk/cefnogwch-ni/cefnogaeth-hir-sefydlog/*

**Hoffem ddiolch i chi am gefnogi Theatr y Sherman eleni a phob dymuniad da i chi dros y Nadolig.**

**Bydd rhifyn y gwanwyn / haf o'n Cylchlythyr Aelodau yn cael ei anfon ym mis Mai 2025, felly cadwch lygad ar eich e-bost bryd hynny.**

**SHERMANTHEATRE.CO.UK**
**029 2064 6900**

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Sherman Cymru Productions Ltd | Registered Charity Number / Rhif Elusen Cofrestredig 1118364